**<u>Atodiad 1</u>**

### 3.4 Trefniadau Ysgolion Bwydo

Yn ôl disgresiwn, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rhai ysgolion cynradd yn ystolion bwydo naturiol i ysgolion uwchradd penodol. Felly, o ran addysg uwchradd, fe ellir darparu cludiant am ddim i'r ysgol uwchradd addas agosaf neu'r ysgol uwchradd fwydo gydnabyddedig; cyhyd â bod y dysgwr yn bodloni'r gofynion pellter a nodir yn adran 2.2 a bod y daith yn un rhesymol; fe nodir y maen prawf hwn isod.

Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i gymhwyso prawf rhesymoldeb ar gyfer rheini/gofalwyr sy'n gofyn am gludiant ysgol ar sail yr ysgol fwydo. I dderbyn cludiant am ddim yn seiliedig ar yr ysgol fwydo, mae'n rhaid i'r dysgwr:

- Fod wedi bod yn mynychu eu hysgol gynradd addas agosaf o'u lleoliad cartref fel yr aseswyd ar y pwynt derbyn
- Bodloni'r meini prawf pellter yn adran 2.2. ar gyfer ysgolion uwchradd
- Os yw dysgwyr yn symud tŷ cyn dechrau'r ysgol uwchradd, bydd angen ail-asesu eu hawl, yn ôl y meini prawf a ddangosir yn adran 2
- Mewn achosion lle nad yw dysgwyr wedi mynychu eu hysgol gynradd addas agosaf yn ôl dewis y rhiant/gofalwr, ni fydd adran 3.4 yn berthnasol. Bydd ceisiadau am gludiant ysgol wedyn yn cael eu hasesu yn seiliedig ar yr ysgol uwchradd addas agosaf yn unig.

### 3.2 Ysgolion Ffydd

Yn ôl disgresiwn, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i'r ysgol ffydd addas agosaf os mai hyn yw dewis y rhieni/gofalwyr. Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yr ysgol hon yw'r ysgol addas agosaf. Bydd meini prawf pellter adran 2.2. yn dal yn berthnasol. Gwelwch y tabl yn Atodiad 1 am ragor o fanylion am ysgolion ffydd.

Os yw'r ysgol ffydd addas agosaf y tu allan i'r sir, yna bydd yr Awdurdod yn dal yn darparu cludiant.

Os yw rhieni/gofalwyr yn dewis addysg ffydd ac os nad oes gan yr ysgol ffydd addas agosaf unrhyw le, yna bydd yr ysgol ffydd addas nesaf yn cael ei hystyried.

**<u>Atodiad 3</u>**

**Cwmpas y Broses ac Ystyriaethau'r Gweithgor**

- Dan ba amgylchiadau y dylid gweithredu proses newydd?
- Sut y gellid rhoi cyfrif am enghreifftiau mor amrywiol mewn gweithdrefn?
- Ymgynghori â budd-ddeiliaid
- Datganid y clystyrau presennol
- Datganiad yr Awdurdod
- Ystyriaethau eraill ar gyfer yr achos busnes a Datganiad yr Awdurdod?
    - Model ariannol
    - Effaith lleoedd ysgolion
    - Cludiant ysgol
    - Trefniadau cefnogi ar gyfer y clwstwr
    - Meysydd cyfrifoldeb
    - Amserlen
- Penderfyniad terfynol